Diweddariad Cynllun Gweithredu AGIC – Mai 2013

<table>
<tr><th>SAFON</th><th>RHEOLIAD</th><th>CANFYDDIADAU (RHIF Y PARAGRAFF)</th><th>GOFYNIAD</th><th>AMSERLEN</th><th>CWBLHAWYD</th><th>SYLWADAU / DIWEDDARIAD GAN DELFRYN</th></tr>
<tr><td>10</td><td>18 (1) A</td><td>2.5</td><td>Mae’n rhaid i’r darparwr cofrestredig sicrhau y diogelir preifatrwydd ac urddas y cleifion, ac ni cheir gadael y paneli gweld sydd ar ddrysau ystafelloedd gwely’r cleifion ar agor.</td><td>Yn ddi-oed ac yn barhaus</td><td>Parhaus</td><td>O ran hyn, mae’r staff yn edrych ar y paneli bob awr i sicrhau eu bod ar gau, ond gall y cleifion eu hagor. Os oes claf wedi agor y panel, gofynnir i’r staff ei gau ac egluro i’r claf pam y gwnaed hynny. Os oes angen i’r panel fod ar agor oherwydd rheswm sy’n ymwneud â risg, mae’n rhaid nodi manylion llawn y rhesymau hynny yn ysgrifenedig.</td></tr>
<tr><td>25</td><td>20 (1) (a) & (2) (a)</td><td>2.12, 2.14 & 2.15</td><td>Mae’n rhaid i’r darparwr cofrestredig sicrhau bod unigolion sydd â’r cymwysterau, y sgiliau a’r profiad priodol yn gweithio yn y sefydliad bob amser, ac mae’n rhaid hefyd sicrhau bod y staff i gyd wedi cael hyfforddiant mewn:<br><br>Rheoli Trais ac Ymddygiad Heriol;<br>Deddf Iechyd Meddwl (1983); Galluedd Meddyliol; Colli Rhyddid; Diogelu; Y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid; atal tân; rheoli heintiau; iechyd a diogelwch, ac Amddiffyn Oedolion a Phlant. Yn ogystal, mae’n rhaid i bob aelod o’r staff ddilyn lefel briodol o hyfforddiant sefydlu.</td><td>Mae dyddiad terfynol yr amserlen wreiddiol ar gyfer y camau hyn wedi mynd heibio, ac mae’r darparwr cofrestredig wedi cadarnhau bod pob aelod o’r staff bellach wedi cael hyfforddiant yn y meysydd a nodwyd.</td><td>Parhaus</td><td>Mae pob aelod o’r staff yn cael hyfforddiant sefydlu llawn a diweddariadau parhaus. Yn ogystal, darperir hyfforddiant sy’n ymwneud yn benodol â’r safle , h.y. hyfforddiant ar wasanaethau i fenywod.<br><br>Erbyn mis Ebrill y llynedd, roeddem yn cydymffurfio’n llawn yn unol â’r cynllun gweithredu, ac rydym yn cadarnhau bod y cydymffurfiad presennol ar 8 Mai 2013, ar gyfer y safle, gan gynnwys yr holl staff clinigol ac anghlinigol, fel a ganlyn:<br><table><tr><th>TEITL</th><th>% Y TŶ a RHYD ALYN</th><th>% Y LODGE</th></tr><tr><td>Cymorth Cyntaf</td><td>100</td><td>94.7</td></tr><tr><td>Hylendid Bwyd</td><td>93.8</td><td>94.7</td></tr><tr><td>Iechyd a Diogelwch</td><td>100</td><td>97</td></tr><tr><td>Rheoli Heintiau</td><td>97</td><td>98.4</td></tr><tr><td>Diogelu</td><td>100</td><td>100</td></tr></table></td></tr>
</table>

<table>
<tr>
<td></td>
<td></td>
<td></td>
<td></td>
<td></td>
<td></td>
<td>
<table>
<tr><td>Cydraddoldeb ac Amrywiaeth</td><td>95.1</td><td>98.5</td></tr>
<tr><td>Bwlio ac Aflonyddu</td><td>96.8</td><td>98.5</td></tr>
<tr><td>MVA – Cwblhawyd</td><td>96.8</td><td>94.7</td></tr>
<tr><td>MHA – Cwblhawyd</td><td>95.1</td><td>98.5</td></tr>
</table>
DS – Mae’r ffigurau hyn yn cynnwys staff sydd newydd ddechrau gweithio ac sy’n aros am hyfforddiant. Mae’r holl ddyddiadau wedi eu trefnu, maent i gyd cyn diwedd mis Mai, a bydd y cydymffurfiad o ran hyfforddiant yn codi i 100% unwaith eto ar yr adeg honno.
</td>
</tr>
<tr>
<td>15</td>
<td>15 (5) (a)</td>
<td>2.13</td>
<td>Mae’n rhaid i’r unigolyn cofrestredig sicrhau bod pob aelod o’r staff yn cael eu goruchwylio a’u gwerthuso’n rheolaidd.</td>
<td>Yn ddi-oed ac yn barhaus</td>
<td>Parhaus</td>
<td>Er mwyn sicrhau bod cefnogaeth a dysgu yn barhaus, rydym yn parhau i ymsefydlu goruchwyliaeth 3 haen, sef unigol, SW/RMN a grŵp. Mae hyn yn ychwanegol at sesiynau ymarfer myfyriol a arweinir gan y tîm seicoleg.<br><br>Sicrhawyd gennym fod pob aelod o’r staff yn cael gwerthusiad, a bydd y rhain yn cael eu cynnal bob blwyddyn.</td>
</tr>
</table>

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 8 | 15 (1) (a) & (b) | 2.20, 2.21, 7 2.22 | Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod cynlluniau gofal ac asesiadau risg ar gael i'r holl gleifion, a'u bod yn cael eu diweddaru'n rheolaidd.<br><br>Yn ogystal, mae'n rhaid cadw cofnod unigol cynhwysfawr. | Yn ddi-oed ac yn barhaus | Parhaus | Cafodd pob RMN hyfforddiant ar gynlluniau gofal yn dilyn yr arolygiad, ac mae'r Penaethiaid Gofal darparu hyfforddiant ychwanegol.<br><br>Yn ogystal, cynhaliwyd adolygiad o'r holl gynlluniau gofal gennym yn ddiweddar ar gyfer pob un o'r cleifion ar draws y safle, er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu yn unol â'r arferion lleiaf cyfyngol , ac os oes unrhyw arferion cyfyngol, fod y rhain yn briodol ar gyfer yr asesiadau risg, a bod y claf yn ymwybodol ohonynt a pham y maent ar waith. |
| 24 | 15 (1) (a) & (b) & 18 (2) (b) | 2.23 & 2.24 | Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig gynnal adolygiad trylwyr o'r amser y mae'r nyrsys cofrestredig yn ei dreulio yn cofnodi gwybodaeth, gyda'r nod o sicrhau bod hyn yn cael ei gadw i lefel resymol. | Mae'n rhaid cynnal archwiliad llawn erbyn 31 Mawrth 2013, ac anfon y canlyniadau i AGIC | Wedi ei gwblhau a'i atodi | Pan dderbyniwyd hwn, roedd dyddiad terfynol yr amserlen ar gyfer ei gwblhau eisoes wedi mynd heibio.<br><br>Byddem yn fwy na bodlon i wneud astudiaeth lawn o effeithiolrwydd rheolaeth amser pe byddai AGIC yn dymuno hynny, ond rydym eisoes wedi cyflawni gwelliannau i wneud y ffordd yr ydym yn gweithio yn 'gallach' ac wedi ymrwymo i barhau i weithredu ffyrdd newydd o weithio yn dilyn canlyniadau llawn archwiliad gan wasanaeth ymgynghori arbenigol Newton's, a gyflogir gan Cambian i geisio gwella effeithiolrwydd a pherfformiad ym mhob maes o'r busnes.<br><br>O ganlyniad i'w harchwiliad hwy, ac yn unol â'r sylwadau a dderbyniwyd gan AGIC, rydym eisoes |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | wedi rhoi'r canlynol ar waith:-<br><br>(i) Cwblheir asesiadau risg dyddiol ar ffurf electronig bellach, sy'n caniatáu i unrhyw RMN 'glicio' i wneud newidiadau, yn hytrach nag ysgrifennu'r holl asesiadau risg â llaw.<br>(ii) Mae CPA (a hefyd CTP) wedi newid i fformat electronig bellach, ac o ganlyniad, ffurfir graffiau a data yn electronig o'r data a roddwyd i mewn yn ystod rownd y ward, yn hytrach na dyblygu gwaith.<br>(iii) Mae'r gyrwyr cyfrifiadurol a rennir wedi eu had-drefnu i helpu RMNau i allu dod o hyd i'r data angenrheidiol yn rhwyddach.<br>(iv) Mae cynlluniau gofal bellach yn cael eu hysgrifennu â llaw fel y gellir eu newid ar unwaith ac atal yr RMN rhag gorfod teipio yn dilyn cyfarfodydd lle yr oeddent yn cael eu hysgrifennu â llaw.<br>(v) Mae Newton's yn parhau i weithio gyda Cambian, ac roeddent yn cytuno y bydd mentrau eraill y gellid eu rhoi ar waith/gwneud newidiadau iddynt, er mwyn hwyluso'r modd yr ydym yn cofnodi, gan sicrhau ein bod yn gweithio yn y ffordd fwyaf effeithiol.<br><br>Fel y nodwyd, os yw AGIC yn dymuno i ni gynnal archwiliad penodol, rhowch wybod i ni ar bob cyfrif, neu, fel arall, byddwn yn parhau i roi diweddariadau i AGIC ynglŷn â'r camau ychwanegol a gymerir gennym ynglŷn â lleihau'r amser y mae'r RMNau yn ei dreulio yn gwneud gwaith papur. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 10 | 19 (1) (a) & (b) & 15 (1) (a) (b) & (c) | 2.25 | Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod yr holl benderfyniadau wedi eu seilio'n unigol ar angen y claf ac yr osgoir "ymagwedd gyffredinol" at ofal. | Yn ddi-oed ac yn barhaus | | Yn ychwanegol at y gwaith a wnaed yn syth ar ôl yr arolygiad, pan siaradom ni â phob claf a sicrhau nad oedd unrhyw 'reolau' yn cael eu gosod (heblaw am y rhai hynny sy'n rhan o reolau'r tŷ), cynhaliwyd archwiliad gennym o'r holl gynlluniau gofal yn ddiweddar er mwyn lleihau cymaint â phosibl ar nifer yr arferion cyfyngu, ac mae'r arolygon o'r cleifion hefyd wedi eu cynnal.<br>Bydd gofal y cleifion sy'n derbyn gofal nyrsio unigol neu lefelau uchel o arsylwi, ynghyd ag unrhyw gyfyngiadau, yn cael eu hadolygu bob dydd yn ystod y cyfarfodydd boreol gyda'r nod o leihau nifer y rhain mor gyflym a diogel â phosibl.<br>Mae gennym gynrychiolwyr cleifion a chyngor cleifion bellach. Mae hyn wedi ei ymsefydlu'n dda yn Delfryn Lodge, ac mae'n parhau i fod ar y gweill yn Nhŷ Delfryn. Mae cynrychiolwyr y cleifion yn cael hyfforddiant ac maent yn mynd i gyfarfodydd llywodraethu clinigol, yn ogystal â chadeirio cyfarfodydd cyngor y cleifion. |
| | | | | | | |